Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 10fed Mai 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .1 0pm

Presennol: Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Cyng Ros Bellamy, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Charlotte Leadbeater

6779 / Mai/ 06 Anfonebau i'w talu.

WCVA (CYFLOGAU MAWRTH)	£ 159.76
WCVA (CYFLOGAU EBRILL)	£ 159.76
WCVA (GWEINYDDIAETH EBRILL)	£ 34.66
CWMNI GOLEUADAU NADOLIGAIDD (BRACED)	£ 20.56
DILWYN THOMAS (SGAFFALDAU AR GYFER ATGYWEIRIO' R SIMNAI)	£ 650.00
ORCHARDWEB (GWAITH GWEFAN AR GOFNODION A NEWIDIADAU)	£ 50.00

Cynigiwyd talu'r rhain gan y Cyng Colin Jenkins. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

6780 / Mai / 06 Incwm a Dderbyniwyd

ARCHAEOLEG DYFED (RENT)	£ 2791.75
CSC (ARCHEBIANT)	£15428.34
LLOG – CYFREDOL A/C	£ 2.67

Cyng Hugh Towns i weithredu'r cynnydd yn y rhent gyda Cambria .

.6781 / Mai / 06 Balansau'r Cyfrif (ar 30.4.06)

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL	£ 30.470.97
LTC CYFRIF CYNILO (28.3.06)	£ 34,449.72
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.4.06)	£ 954.84

6782 / Mai / 06 Sefyllfa Gyllidol y Prosiectau

LLWYBR TREFTADAETH - GRANT A DDERBYNIWYD HYD YN HYN	£ 14937.28
- GWARIANT - CAMBRIA	£ 19308.00
- GWARIANT - GREENBARNES	£ 1048.74
CYFANSWM GWARIANT HYD YN HYN	£20356.74
GWARIANT CYFALAF DISGWYLIEDIG	£25750.00
CYFALAF HEB EI WARIO AR 30.4.06	£ 5393.26
ARIAN GRANT PELLACH DISGWYLIEDIG	£ 4779.49

6783 / Mai / 06 Cyfrifon Diwedd Blwyddyn ar gyfer y Flwyddyn 2005-6

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ddogfen ddrafft i'w hystyried.
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r adran derbynebion a thaliadau gael eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn y cyfarfod nesaf. Cynigiodd y dylai'r dogfennau cysylltiedig gael eu newid a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

6784 / Mai / 06 Y Gyllideb Arfaethedig ar gyfer 2006-7.

Cynigiodd y Cyng Richard Wallace y dylai'r cynnydd yng nghyflogau'r staff am y flwyddyn gael ei dalu o'r arian sydd wrth gefn gan y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r Pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn y dylid clustnodi'r arian canlynol :-

1. Prosiect Treftadaeth - £ 4629
2. Gardd Gymunedol - £ 3536
3. Prosiect Neuadd y Sir - Newid o £5592 (fel a gofnodwyd cynt) i £ 5573.

Bydd hyn yn rhoi cyfanswm o £ 13738 wedi'i glustnodi.
Y cyfanswm arian wrth gefn heb ei glustnodi fydd - £ 34891
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns bod y Pwyllgor yn argymell ychwanegu £1000 i'r gyllideb ar gyfer cyflogau.
Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

6785 /Mai / 06 Cytundeb Gwasanaeth Blynyddol Neuadd y Sir

Adroddodd y Swyddog Technegol bod y Cwmni, Lorne Stewart, wedi rhoi amcangyfrif o £100 am wasanaeth blynyddol. Gan fod yna waith strwythurol i'w wneud yn Neuadd y Sir yn ystod y flwyddyn bresennol, cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi'r cytundeb gwasanaeth blynyddol i gychwyn Mai 2007 neu cyn gynted â bod y newidiadau strwythurol wedi'u cwblhau. Eiliwyd hyn gan y Cyng Fran Murphy. Mae hyn i'w argymell i'r Cyngor Llawn.

6786 / Mai / 06 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Llythyron oddi wrth Ceris Rees a Hedydd Brown o Ysgol Tre-gib, gyda chefnogaeth gan gangen leol o Urdd Gobaith Cymru yn chwilio am gymorth ychwanegol i deithio i Romania i wneud gwaith gwirfoddol. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi £ 200.
2. Llythyr oddi wrth Mr Ken Day yn gofyn am gymorth ariannol i dalu am baentio tu allan y Neuadd Ddinesig. Wnaeth y Cyng Pam Steane Price ddatgan diddordeb gan adael y cyfarfod. Roedd aelodau o'r farn y byddai hyn yn gwella'r adeilad ac yn gwella'r ardal i ymwelwyr. Cynigiodd y Cyng Gwyn y dylai £1500 dalu am y gwaith. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy.
3. Anfoneb oddi wrth Regan Norris am £3651.81 in lieu am waith sydd wedi'i wneud ar Brosiect Neuadd y Sir.
   Cynigiodd y Cyng Pam Steane Price y dylid talu am hyn. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.

6787 / Mai/ 06 Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn ddigon pwysig i'w hystyried fel mater brys, yn unol ag adran 100B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Adroddodd y Swyddog Technegol bod cais wedi dod i'r Cyngor yn gofyn iddynt symud yr addurniadau Nadolig o islawr y Neuadd Ddinesig. Mae Mr Gerwyn Williams o Towy Stores wedi cynnig garej i'w rentu ar gost o £3 yr wythnos fel lle i gadw'r addurniadau. Y Clerc i holi a fyddai'n bosib talu bob

chwarter neu hanner. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid rhentu'r garej.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm.